



CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

HAF 2025

**TGAU
CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4
3020U40-1**

Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn gynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

TGAU CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4
CYNLLUNIAU MARCIO HAF 2025

Adran A

1.

- (i) Rydych chi'n golygu blwyddlyfr eich ysgol. Mae angen i chi wirio bod y manylion yn gywir. **[9]**

	Cywir	Anghywir
Mae staff ysgol Axel yn hoffi bod yn ddoniol.	✓	
Dydy Axel ddim yn hoffi perfformio.		✓

[1]

[1]

	Cywir	Anghywir
Mae Gary yn aelod o glwb.	✓	
Mae Gary yn hoffi ieithoedd	✓	

[1]

[1]

	Cywir	Anghywir
Mae Safiah yn hoffi defnyddio cyfrifiadur.	✓	
Mae Safiah yn dwlu ar yr ysgol.		✓

[1]

[1]

- (ii) Yn defnyddio'r pynciau ysgol mae'r bobl ifanc yn eu trafod, dewiswch 3 llun addas ar gyfer clawr y blwyddlyfr. **[3]**

			
	✓		✓
	✓		

1 marc yr un. Os yw ymgeisydd yn rhoi tic mewn 4 blwch gellir gwobrwyo hyd at 2 farc am ymatebion cywir. Os yw ymgeisydd yn rhoi tic mewn 5 blwch gellir gwobrwyo hyd at 1 marc am ymatebion cywir. Os yw ymgeisydd wedi rhoi tic mewn 6 blwch ni ellir dyfarnu marciau.

2.

(i) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch **un** ateb. [1]

- Hoffai Gary weithio fel athro y flwyddyn nesaf.
- Hoffai Gary fynd i ysgol actio mewn pum mlynedd.
- **Hoffai Gary fyw mewn gwlad arall yn y dyfodol.**

(ii) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch **un** ateb. [1]

- Dydy Safiah ddim eisiau mynd i'r coleg y flwyddyn nesaf.
- **Mae Safiah eisiau astudio yn y coleg y flwyddyn nesaf.**
- Mae Safiah eisiau astudio mathemateg yn y coleg y flwyddyn nesaf.

(iii) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch **un** ateb. [1]

- **Bydd Axel yn gadael yr ysgol ar ôl Blwyddyn 11.**
- Bydd Axel yn aros yn yr ysgol ar ôl Blwyddyn 11.
- Bydd Axel yn gweithio mewn siop ar ôl Blwyddyn 11.

3.

[5 + ✓ = 5] = [10]

Rydych chi'n gwneud cais i astudio yn y coleg lleol y flwyddyn nesaf. Ysgrifennwch e-bost byr yn cyflwyno eich hun.

Rhaid i chi gynnwys:
Cyflwyniad
Hoff bwnc a pham?
Pa gwrs hoffech chi astudio?
Clo priodol

Cynnwys (atebion enghreifftiol) [5]

Cyflwyniad - uchafswm o un marc am gyflwyniad megis Dan ydw i, Fy enw i ydy Sam [1]

Hoff bwnc a pham - un marc am nodi'r pwnc a'r ail farc am nodi'r rheswm [2]

Pa gwrs - un marc am nodi pa gwrs e.e Hoffwn i astudio/ fod yn/ weithio fel [1]

Clo - Diolch a hwyl / Diolch yn fawr / Diolch am ddarllen fy e-bost / Hwyl am y tro / Yn gywir [1]

Mynegiant [5]

Rhaid i'r cynnwys fod yn berthnasol i wobrwyo marc mynegiant.

Ni ellir gwobrwyo mwy o farciau am y mynegiant na'r cynnwys.

5 marc	Ateb diddorol yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol, gywir (gan gynnwys dau amser y ferf), mynegi barn effeithiol a rhesymu hyderus.
4 marc	Ateb da yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol, gywir, mynegi barn effeithiol a rhesymu hyderus.
3 marc	Ateb syml yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol, gywir, mynegi barn a rhesymu da.
2 farc	Ymgais i greu ateb yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol, gywir ac ymdrech i fynegi barn.
1 marc	Ymgais i greu ateb yn cynnwys o leiaf un gystrawen gywir.

Adran B

4.

[13]

Darllenwch ddetholiad o ddyddiadur Louise ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

(i) Dewisiwch emoji i nodi teimladau Louise.

[4]

Teimlo yn y	 ☐	 ☐	 ☒
Teimlo ar ôl siarad efo Jen?	 ☐	 ☒	 ☐
Teimlo wrth fwyta cinio?	 ☐	 ☒	 ☐
Teimlo ar ôl gweld Jen ar y traeth?	 ☐	 ☐	 ☒

Ni ellir dyfarnu marciau am fwy nag 1 tic mewn blwch.

(ii) Pa **ddau** ansoddair sy'n disgrifio Louise orau?

[2]

Heini	Diog	Cas	Ffasiynol	Gweithgar
☒	☐	☐	☐	☒

1 marc yr un. Os yw ymgeisydd yn rhoi tic mewn 3 blwch gellir gwobrwyo hyd at 2 farc am ymatebion cywir. Os yw ymgeisydd yn rhoi tic mewn 4 neu 5 blwch ni ellir dyfarnu marciau.

(iii) Sut mae Louise yn cadw'n heini?

[2]

Un marc am bob ateb cywir – cyfanswm o 2 farc: rhedeg, mynd â'r ci am dro; cerdded, mynd am dro; mynd â'r ci i'r traeth; gofalu am y corff

Rhaid cael berf i wobrwyo'r marciau

(iv) Ydy Jen yn ffrind da i Louise? > Ydy/ Nac ydy/ (d)dim o gwbl/ Wrth gwrs/ Heb os. [1]

Ni ellir gwobrwyo marciau am Oes, Ydw, Nac ydw, Na

Pam? 2 farc am bob rheswm synhwyrol – uchafswm o 4 marc: [4]

Ddim eisiau bod gyda'i ffrind / Louise
Treulio mwy o amser efo Travis bob dydd
Ddim eisiau siarad efo hi ar y ffôn
Jen yn gwneud i Louise deimlo'n drist (ar y ffôn)
Jen yn gwneud i Louise deimlo'n siomedig (yn gwneud graffiti)
Wedi cael ffrindiau newydd
Ddim yn gweld / treulio amser gyda Louise
Jen yn dweud 'helo' a 'hwyl fawr' yn gwrtais
Ddim eisiau mynd am ginio gyda Louise
Jen yn hoffi ei chariad yn fwy na Louise

5.

[8 + ✓ = 7] = [15]

I wneud i Louise deimlo'n well, mae ei mam yn mynd â hi allan am fwyd. Ysgrifennwch blog yn trafod beth sy'n eich gwneud chi'n hapus.

Rhaid i chi gynnwys:

- Teitl addas
- Beth wnaethoch chi'n ddiweddar i deimlo'n dda?
- Pwy sy'n eich gwneud chi deimlo'n hapus? Pam?
- Os ydy ffrind yn teimlo'n drist, beth fyddwch chi'n gwneud i'w helpu?
- Pa amser or flwyddyn sy'n eich gwneud chi hapusaf? Pam?

Cynnwys (atebion enghreiffiol)

[8]

Teitl > **un marc** am nodi teitl addas (cyfathrebol) Rhaid i'r teitl fod yn berthnasol i bwyntiau 2 neu 3 **[1]**

e.e "Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?", "Wyt ti'n berson hapus?"

Ni roddir marciau am ddefnyddio cwestiynau o'r rwbric

Gwneud yn ddiweddar >

[1]

e.e Chwaraeais i rygbi, Gwyliais i ffilm...

Pwy? **Un marc** am nodi pwy sy'n eu gwneud yn hapus ac **un marc** am reswm.

[2]

e.e Mae fy ffrindiau yn fy ngwneud i'n hapus [1] achos maen nhw'n hwyl [1]

Gwneud i helpu ffrind? Uchafswm o **ddau farc** am nodi sut maen nhw'n helpu ffrind trist **[2]**

e.e Bydda i'n siarad efo Molly bob dydd [1]

Rydw i'n ffrind da i Aideen [1]

Amser y flwyddyn? Uchafswm o **ddau farc** am drafod amser y flwyddyn sy'n eu gwneud yn hapus **[2]**

e.e Fy hoff amser o'r flwyddyn ydy'r haf [1]

Rydw i'n caru mis Rhagfyr [1] achos rydw i'n dathlu fy mhen-blwydd [1]

Mynegiant

[7]

Derbynnir **dwi** ac **achos dwi** fel dau batrwm brawddegol gwahanol. Rhaid cael berfau gwahanol.

Ni ellir gwobrwyo mwy o farciau am y mynegiant na'r cynnwys.

6-7 marc	Defnyddio o leiaf 5 patrwm brawddegol gwahanol yn gywir. Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir (o leiaf 3 amser y ferf) Sillafu ac atalnodi cywir
4-5 marc	Defnyddio o leiaf 4 patrwm brawddegol gwahanol yn gywir. Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir (o leiaf 2 amser y ferf) Sillafu ac atalnodi da ar y cyfan.
3 marc	Defnyddio o leiaf 3 phatrwm brawddegol gwahanol yn gywir. Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir.
2 farc	Defnyddio o leiaf 2 batrwm brawddegol gwahanol yn gywir. Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir.
1 marc	Defnyddio o leiaf 1 patrwm brawddeg yn gywir Peth ymdrech i sillafu ac atalnodi.

Adran C

6 – 15 marc

(i) Tanlinellwch yr atebion cywir.

(a) Beth oedd enw rhieni Betty Campbell? [1]

Nora a Simon Margaret a Nelson Nora a Nelson

(b) I ba ysgol aeth Betty Campbell pan oedd hi'n blentyn? [1]

Ysgol Mount Stuart Ysgol Uwchradd Lady Margaret Ysgol Llanrhymni i ferched

(c) Sawl merch cafodd le yng Ngholeg Hyfforddi Athrawon Caerdydd? [1]

2 6 8

(ii) Gweithiodd Betty Campbell mewn sawl lle gwahanol. Ysgrifennwch **3** lle. [3]

Uchafswm o 3 marc am nodi unrhyw un o'r canlynol:

(Ysgol) Llanrhymni, (Ysgol) Mount Stuart, Cyngor Sir (Caerdydd), y BBC, Prifysgol (Metropolitan Caerdydd), Caerdydd, Tre Biwt, Cymru

(iii) Cafodd Betty Campbell broblemau pan oedd hi'n berson ifanc. Ysgrifennwch **2** broblem. [4]

Dau farc yr un am 4 o'r atebion posib isod:

Teulu tlawd, bywyd yn anodd (iawn), bu farw ei thad, pobl yn gas (efo pobl ddu), rhagfarn, dim cefnogaeth (athrawon), merch ddu (o gefndir dosbarth gweithio)

Gellir gwobrwyo 4 marc am ddau ymateb ar yr un linell

- (iv) Ddylai ysgolion ddysgu mwy am bobl ddylanwadol fel Betty Campbell? Meddyliwch am berson dylanwadol **arall**. [5]

Rhaid i chi gynnwys:

- eu neges i bobl ifanc heddiw.
- sut maen nhw wedi helpu eraill.
- eich barn bersonol chi.

5 marc DARLLEN

Enw'r person: _____ DIM MARC am nodi enw.

Neges > Rhaid i chi fyw bywyd iach..., Mae bod yn berson caredig yn bwysig heddiw...

Peidiwch bod yn berson cas. Mae'n bryd i ni wneud mwy i helpu'r blaned.

Un marc am ateb cyfathrebol sy'n ateb y pwynt trafod a sy'n cyd-fynd a'r enw a nodwyd uchod.

Helpu – sut?

Uchafswm o ddau farc e.e maen nhw wedi helpu pobl llai ffodus, maen nhw'n esiampyl dda, helpu pobl bob dydd, helpu pobl ifanc

Mae X yn ddylanwad da

Maen nhw'n ddylanwad da o sut i/sut i beidio

Barn bersonol – Mae X yn arwr yn fy marn i achos, Mae X yn ddylanwad da ar bobl ifanc achos...

Mae X yn ddylanwadol

Uchafswm o ddau farc am ddau bwynt yn ateb y pwynt trafod

7.

[5 + ✓ = 5] = [10]

“Roedd Betty Campbell yn credu'n gryf bod angen dathlu treftadaeth amrywiol Cymru a bod gan bawb yr un hawliau.

Ysgrifennwch nodyn byr at Bennaeth eich ysgol chi yn trefnu digwyddiad dathlu arbennig yn yr ysgol.

Rhaid i chi:

- nodi pam rydych chi'n ysgrifennu
- trafod beth hoffech chi ddathlu
- nodi pam ei bod hi'n bwysig ei ddathlu
- gorffen y nodyn yn briodol.

Cynnwys [5]

Bwriad >

e.e Rydw i'n ysgrifennu atoch chi i drefnu dathliad yn yr ysgol. [1]

Beth? >

e.e Hoffwn i ddathlu mis LGBTQ+/Hanes Pobl Ddu/llwyddiant tîm rygbi Cymru/Nadolig [1]

Rhesymau > uchafswm o ddau farc yn nodi pwysigrwydd dathlu [2]

e.e Mae Nadolig yn hwyl [1]

Mae mis LGBTQ+ yn rhoi llais i bobl [1] a dydy'r ysgol ddim yn gwneud digon ar hyn o bryd [1]

Clo addas >

e.e Diolch am ddarllen fy llythyr. Diolch a hwyl / Diolch yn fawr / Diolch am ddarllen fy e-bost / Hwyl am y tro / Yn gywir [1]

Mynegiant [5]

Ni ellir gwobrwyo mwy o farciau am y mynegiant na'r cynnwys.

5 marc	Ateb diddorol yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol, gywir (gan gynnwys dau amser y ferf), mynegi barn effeithiol a rhesymu hyderus (berf / idiom).
4 marc	Ateb da yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol, gywir, mynegi barn effeithiol a rhesymu hyderus (berf / idiom).
3 marc	Ateb syml yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol, gywir, mynegi barn a rhesymu da (achos mae / dwi).
2 farc	Ymgais i greu ateb yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol, gywir ac ymdrech i fynegi barn.
1 marc	Ymgais i greu ateb yn cynnwys o leiaf un gystrawen gywir.

8.

Ysgifennwch (tua 150 gair) yn **Gymraeg** ar **un** o'r canlynol.

Naill ai

Mae gwefan Croeso.Cymru yn defnyddio'r slogan "Mae gan Gymru rhywbeth i bawb" er mwyn denu twristiaid i Gymru yn 2025. Ysgrifennwch ddeunydd marchnata ar gyfer gwefan y cwmni.

The Visit.Wales website is using the slogan "Wales has something for everyone" in order to attract tourists to Wales in 2025. Write marketing material for the company's website.

Rhaid i chi gynnwys:

atyniadau poblogaidd Cymru [2]

eich hoff ardal yng Nghymru [2]

pwysigrwydd yr iaith Gymraeg [2]

dylanwad yr Eisteddfod [2]

beth arall hoffech chi ddathlu am Gymru? [2]

Sut mae Cymru yn wahanol i weddill y DU? [2]

Neu

"Mae sêr ifanc y byd heddiw yn dylanwadu'n negyddol ar bobl ifanc achos maen nhw'n gwneud mwy o bethau drwg na phethau da o flaen y camerau."

Ysgrifennwch araith yn ymateb i'r gosodiad uchod ar gyfer eich Clwb Trafod.

"The young celebrities of today are a negative influence on young people because they do more bad things than good things in front of the cameras!"

Write a speech discussing the statement above for your local Discussion Group.

Rhaid i chi gynnwys:

cyflwyniad i'ch dadl [2]

sêr ifanc sy'n ddylanwad da? Sut? [2]

sêr ifanc sy'n ddylanwad negyddol? Sut? [2]

cyngor i sêr ifanc ar sut i ymddwyn yn gyfrifol. [2]

hoffech chi ddylanwadu ar eraill? Sut? [2]

Casgliad e.e barn bersonol, cwestiwn rhethregol [2]

Ni ellir gwobrwyo mwy o farciau am y mynegiant na'r cynnwys.

Band 5 10-13 Marc	• Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb. Defnydd cywir o'r 6 Rheol Digyfnwid. • Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. • Sillafu ac atalnodi cywir.
Band 4 7-9 marc	• Cyfathrebu'n rhwydd gydag elfen amlwg o gywirdeb. Defnydd cywir o fwyafrif o'r 6 rheol Digyfnwid. • Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan. • Sillafu ac atalnodi eithaf cywir
Band 3 4-6 marc	• Cyfathrebu'n eithaf rhwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan. • Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir. • Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir.
Band 2 1-3 marc	• Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig. • Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb. • Peth ymdrech i sillafu ac atalnodi.
Band 1 0 marc	• Mynegiant amhriodol neu heb ymateb.